**Ymateb y Llywodraeth - Cod Ymarfer Treuliau Etholiad Ymgeiswyr Unigol (Etholiadau'r Senedd) 2025**

Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r pwyntiau adrodd ac yn darparu'r ymateb canlynol mewn perthynas â phob un o'r pwyntiau a godwyd:

Er bod Llywodraeth Cymru yn derbyn bod rhai anghysondebau o hyd, bernir nad yw'r rhain yn effeithio'n sylweddol ar y Cod.

Mae'r Comisiwn Etholiadol hefyd wedi cadarnhau nad yw'r pwyntiau a godwyd yn effeithio o gwbl ar effaith gyffredinol y Cod nac ar ei gymhwysiad. Ni fyddai'r pwyntiau a godwyd yn camarwain darllenwyr y Cod ac nid oes angen diffiniadau pellach.

Nid oes rheidrwydd ar y Comisiwn Etholiadol i ddrafftio yn unol â Drafftio Deddfau i Gymru a bydd yn drafftio mewn ffordd sy'n sicrhau cysondeb â dogfennau/canllawiau eraill a gynhyrchir ganddo.

Byddai diwygio'r Cod i ymdrin â'r anghysondebau yn golygu y byddai'n rhaid iddo gael ei dynnu'n ôl a'i ailosod am 40 diwrnod arall. Bernir y byddai unrhyw oedi pellach yn cael effaith er gwaeth ar randdeiliaid.

Prif amcan y Comisiwn Etholiadol yw i'r Codau ddod i rym cyn gynted â phosibl er mwyn osgoi unrhyw effaith bellach ar randdeiliaid, yn enwedig gan fod y Codau eisoes wedi'u gohirio y tu hwnt i ddechrau'r cyfnod rheoleiddiedig.

Fodd bynnag, bydd yr anghysondebau a godwyd yn cael eu nodi, ac eir i'r afael â hwy pan fydd y cyfle nesaf yn codi.